**Dychwelodd! – Pedr**

**Darllen Luc 24:36–43**

Dychwelodd!
Daeth yn ôl i dir y rhai byw,
a ninnau wedi colli pob gobaith!
Tri diwrnod,
tri diwrnod o anobaith tywyll –
ein Harglwydd mewn bedd,
yn farw, wedi ei gladdu;
nid byth y gwelir ef eto.

Ac er ein bod wedi gweld â’n llygaid ein hunain
ni allai’r un ohonom gredu’r hyn a ddigwyddodd.
Yr oeddem yn disgwyl dihuno a gweld bod yr hunllef drosodd,
a chael clywed mai camgymeriad oedd y cyfan.
Ond wrth i wirionedd y sefyllfa ein taro,
dechreuodd y boen.
Dyma’r diwedd ar bopeth –
ein cynlluniau,
ein gobeithion,
ein breuddwydion.

Doedd bywyd ddim gwerth ei fyw bellach.
Yr oeddem wedi rhoi ein holl obeithion ynddo,
ond yr oedd wedi mynd am byth.
Wel, dyna a dybiwyd!
Oherwydd yr oedd yno,
yn yr ardd yn cyfarfod Mair wrth i’w chalon dorri.
Yr oedd yno,
ar ffordd Emaus wrth i’r ddau gerdded yn araf tua thref
a’u byd ar chwâl.

Yr oedd yno,
yn siarad gyda Thomas.
Yr oedd yno,
yn sefyll yn ein plith yn yr oruwch ystafell!

Yr oedd yn ôl ar dir y byw,
ac felly ninnau,
a’n ffydd eto ar dân,
ein gobaith wedi ei adfer,
ein llawenydd wedi ei ailennyn,
bywyd yn dechrau o’r newydd.

**Gweddi:**
Arglwydd Iesu Grist,
pan oedd y byd wedi anobeithio,
a hyd yn oed dy ddisgyblion wedi ildio,
daethost yn ôl gan droi methiant yn fuddugoliaeth.
Dysg i ni ddeall,
beth bynnag fo'r trychinebau a wynebwn,
beth bynnag fo'r rhwystrau a wynebwn
beth bynnag fo'r siomedigaethau a brofwn,
y gallwn godi eto gyda'th gymorth di.
Ti yw'r Duw all drawsnewid ein horiau tywyllaf
a'n harwain drwyddynt i oleuni dy gariad.
Cyflwynwn ein hunain, felly, i ti,
gan wybod na all bywyd nac angau
ein gwahanu oddi wrthyt ti.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***